# Polisi diwygiadau a chywiriadau i ystadegau

Rydym yn ymdrin â chywiriadau heb eu trefnu a diwygiadau wedi'u trefnu i'n hystadegau mewn ffordd dryloyw ac amserol, yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

## Cywiriadau

Mae'r ystadegau yr ydym yn eu cyhoeddi'n cael eu crynhoi gan ein hystadegwyr gan ddefnyddio data a dulliau priodol. Mae gennym brosesau cadarn i sicrhau bod ein hystadegau'n gywir ac o ansawdd da. Fodd bynnag, mae gwallau'n digwydd weithiau a byddwn yn cymryd camau gweithredu priodol.

Bydd mân wallau nad ydynt yn effeithio ar yr ystadegau eu hunain, nac ar y modd y cânt eu dehongli, megis gwallau teipograffyddol, yn cael eu cywiro yn y cyhoeddiad cyn gynted â phosibl. Ni fyddwn yn cyhoeddi nodyn nac yn hysbysu defnyddwyr yn yr achosion hyn.

Bydd ein hymagwedd at gywiro gwallau yn yr ystadegau eu hunain, neu unrhyw wallau eraill a allai effeithio ar y modd y caiff yr ystadegau eu dehongli, yn amrywio gan ddibynnu ar faint y gwallau a pha mor hawdd ydynt i'w cywiro.

Os gallwn gywiro'r gwall ar unwaith, byddwn yn diweddaru'r cyhoeddiad ac yn cynnwys nodyn sy'n egluro'r cywiriad a'i effaith.

Os na ellir cywiro'r gwall ar unwaith, byddwn yn cynnwys nodyn sy'n egluro hynny. Efallai y byddwn yn tynnu'r cyhoeddiad i lawr dros dro, gan ystyried maint y gwall ac anghenion defnyddwyr ar gyfer unrhyw ystadegau yr effeithir arnynt. Byddwn yn cyhoeddi'r cywiriad cyn gynted â phosibl.

Yn y ddau achos, byddwn hefyd yn cysylltu'n rhagweithiol â defnyddwyr hysbys ein hystadegau i'w hysbysu ynghylch y gwall a'n cynlluniau ar gyfer ei gywiro.

## Diwygiadau

Mae diwygiadau'n golygu diweddariadau wedi'u cynllunio i ystadegau a gyhoeddwyd yn flaenorol. Gall y rhain ddigwydd am amrywiaeth o resymau. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Ystadegau chwarterol ar raglenni dysgu prentisiaethau a ddechreuwyd, sy'n deillio o system casglu data byw. Mae'r tri diweddariad chwarterol cyntaf ar gyfer blwyddyn academaidd yn rhai dros dro. Mae pob diweddariad chwarterol yn cynnwys ystadegau diwygiedig ar gyfer unrhyw chwarteri blaenorol yn yr un flwyddyn academaidd. Ystyrir bod yr holl ystadegau'n derfynol yng nghyhoeddiad chwarter 4.
- Ystadegau blynyddol ar gyrchfannau dysgwyr. Mae ystadegau ar gyfer blynyddoedd blaenorol yn cael eu diwygio'n flynyddol â data wedi'i ddiweddaru a geir trwy brosesau cysylltu data.

- Cyhoeddiadau sy’n seiliedig ar ddata’r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) Jisc, lle gwnaed newidiadau trwy’r cyfleuster newidiadau hanesyddol ar gyfer data myfyrwyr neu newidiadau trwy gyflwyno data o gronfeydd data sefydlog ar gyfer ffrydiau data eraill. Os mai felly y mae hi, bydd ystadegau a gyhoeddir unwaith y mae’r setiau data diwygiedig ar gael yn defnyddio’r data a newidiwyd mewn unrhyw gyfres amser.

Gallwn hefyd gyhoeddi diwygiadau wedi’u cynllunio mewn ymateb i newidiadau mewn methodoleg. Wrth wneud newidiadau i fethodoleg, rydym yn ystyried yr effaith ar gymharedd a chydlyniad y gyfres amser. Os yw’r effaith yn sylweddol, gallwn ddiwygio data ar gyfer blynyddoedd blaenorol lle mae hynny’n bosibl. Fel arall, byddwn yn hysbysu defnyddwyr yn glir ynghylch unrhyw faterion cymharedd sy’n deillio o newidiadau i fethodoleg.

Bydd ein cyhoeddiadau ystadegol yn hysbysu defnyddwyr ynghylch unrhyw ddiwygiadau wedi’u cynllunio a’u heffaith ym mhob achos.